# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 10.11.11

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Ieuan Roberts, Gwilym O. Williams

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu), Alwyn Thomas (Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

## 1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – ATRIUM ALFRESCO, 4 STRYD TEGID, BALA

**Eraill a wahoddwyd i'r cyfarfod:**

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Atrium Alfresco, 4 Stryd Tegid, Bala am drwydded eiddo i ganiatau gwerthiant o fwyd poeth rhwng 23.00 a 01.00 o Nos Sul i Nos Iau, rhwng 23.00 a 02.00 Nos Wener a rhwng 23.00 a 02.30 ar Nos Sadwrn. Gwerthiant o alcohol rhwng 12.00 a 01.00 o ddydd Sul i ddydd Iau a hyd at 02.00 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn gyda'r eiddo'n agored rhwng 12.00 a 01.30 dydd Sul i ddydd Iau, rhwng 12.00 a 02.30 dydd Gwener a rhwng 12.00 a 02.45 dydd Sadwrn.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, ac yn ddarostyngedig i amodau, nid oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais. 'Roedd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn wreiddiol wedi gwrthwynebu'r cais ond iddynt erbyn hyn dynnu'r gwrthwynebiad yn ôl oherwydd i'r ymgeisydd ymgymryd â gwaith yn yr eiddo a oedd yn cydymffurfio â gofynion y Gwasanaeth Tân ac Achub. Derbyniwyd llythyr gan Adran Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn rhoddi sylwadau ar y cais. Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Tref Y Bala yn tynnu sylw at yr oriau agor hwyr a'r bwriad i werthu alcohol. Derbyniwyd hefyd lythyr gan berchennog gwesty cyfagos yn gwrthwynebu'r cais yn ogystal a llythyrau gan gwsmeriaid a arhosodd yno yn cwyno am sŵn yn deillio o bobl yn gadael sefydliadau eraill yn hwyr yn y nos.

Nid oedd yr ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod. Yn yr amgylchiadau, penderfynodd yr aelodau ystyried y cais yn ei absenoldeb.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu nad oes gan yr heddlu ddigon o dystiolaeth i wrthwynebu'r cais. Fodd bynnag, daeth yr eiddo hwn i'w sylw dechrau mis Gorffennaf 2011 yn dilyn digwyddiad o ddifrod i ffenestr yr eiddo pryd y sylweddolwyd nad oedd wedi ei drwyddedu ac fe ymwelwyd â'r eiddo ar 13 Gorffennaf 2011. Eglurwyd wrth yr ymgeisydd nad oedd trwydded ar yr eiddo i ganiatau lluniaeth yn hwyr yn y nos a gwerthu alcohol ac felly nid oedd hawl ganddo i werthu'r rhain ar ôl 23.00 hyd nes y caniateir y drwydded. 'Roedd yn amau bod yr eiddo wedi bod yn agored ar ôl 23.00 heb drwydded ar adegau yn dilyn y cyfarfod ar 13 Gorffennaf 2011 er nad oes tystiolaeth pendant o hynny. Nododd y gwnaed cais hefyd am Rybudd Digwyddiad Tros Dro ar gyfer penwythnos Wa Bala ar 19/20 Awst 2011 tan 01.00. Ymwelodd Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu'r Cyngor â'r eiddo am 01.30 ar 20 Awst 2011 pryd y sylwyd eu bod yn parhau i werthu'n groes i'r Rhybudd Digwyddiad Tros Dro a gofynnwyd iddynt atal hynny ar unwaith. Mae'r eiddo hefyd mewn ardal breswyl sy'n debygol o amharu ar drigolion lleol. Os caniateir i'r eiddo hwn agor yn hwyrach na eiddo trwyddedig eraill yn Y Bala, bydd pobl yn ymgynnull yn yr ardal a fyddai o bosibl yn arwain at ddigwyddiadau o anhrefn. Er tegwch i eiddo eraill cyffelyb yn yr ardal, 'roedd o'r farn y dylid diwygio'r cais fel y cyfeirir ato yn ei lythyr dyddiedig 4 Hydref 2011 at yr Awdurdod Trwyddedu.

Nid oedd yr un o'r partion â diddordeb eraill a gyflwynodd sylwadau'n bresennol.

Datganodd yr aelodau bryder nad oes presenoldeb yr heddlu i'w gael yn Y Bala yn hwyr yn y nos a bod gwir angen hynny er gallu monitro sefydliadau o'r math hwn. Mewn ymateb, hysbysodd Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu nad oes heddwas wedi ei leoli yn y dref erbyn hyn ac mai swyddogion o Orsaf Heddlu Corwen sy'n gyfrifol am oruchwylio'r dref.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

'

**PENDERFYNWYD**
**i) Caniatau trwydded eiddo ar gyfer Atrium Alfresco, 4 Stryd Tegid, Bala fel a ganlyn –**
**a) Darparu lluniaeth hwyr dan baragraff L, rhwng 23.00 a 00.00 dydd Sul i ddydd Iau a rhwng 23.00 a 01.00 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn.**
**b) Gwerthu alcohol dan baragraff M, o fewn yr adeilad yn unig, rhwng 12.00 a 00.00 dydd Sul i ddydd Iau a rhwng 12.00 a 01.00 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn.**
**c) Yr eiddo ar agor i'r cyhoedd dan baragraff O rhwng 12.00 a 00.30 dydd Sul i ddydd Iau a rhwng 12.00 a 01.30 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn.**
**ch) Bod y camau a ddisgrifir ym mharagraff P o'r cais i'w cynnwys fel amodau ar y drwydded.**
**d) Bod system teledu cylch cyfyng yn cael ei osod tu mewn a thu allan i'r adeilad gyda'r cofnodion yn cael eu cadw am o leiaf 31 diwrnod ac ar gael ar gais yr heddlu neu unrhyw awdurdod cyfrifol arall.**
**ii) Datgan anfodlonrwydd wrth yr ymgeisydd na fu iddo bresennoli ei hun yn y cyfarfod.**
**iii)Tynnu sylw Awdurdod yr Heddlu at y pryder a ddatganwyd gan yr aelodau nad oes presenoldeb yr heddlu i'w gael yn Y Bala yn hwyr yn y nos a bod gwir angen hynny er gallu monitro sefydliadau o'r math hwn.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd a'r partion â diddordeb o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.00pm a daeth i ben am 3.40pm